| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Gweithiwr Cymdeithasol, Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig |
| **Portffolio** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Yn atebol i'r** | Rheolwr Tîm |
| **Lleoliad** | Stryd y Capel, Y Fflint |

**Pwrpas y Swydd**

Fel gweithiwr cymdeithasol yn y Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig byddwch yn gweithio gyda theuluoedd a effeithiwyd gan gamddefnyddio sylweddau ac alcohol, problemau iechyd meddwl a cham-drin domestig.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn darparu cymorth dwys i deuluoedd ble mae'r problemau a nodir uchod gan rieni yn effeithio ar ofal a diogelwch.

Mae gweithwyr y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cynnal ymgynghoriad gyda gweithiwr cymdeithasol y plant ac yn seiliedig ar asesiad o angen yn defnyddio cyfuniad o gyfweld ysgogiadol a therapi sy'n canolbwyntio ar atebion gyda theuluoedd. Mae hyn yn ceisio cynnal sefydlogrwydd teuluol; mae'r plant yn ddiogel, ac mae rhieni yn gwneud newidiadau arwyddocaol ac ystyrlon.

Ategir hyn o fewn cyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan sicrhau llais y plentyn a chyd-gynhyrchu deilliannau a gytunwyd gyda'r holl fudd-ddeiliaid perthnasol.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Gwaith uniongyrchol â phlant a theuluoedd.
2. Sicrhau bod lles y plant yn cael ei hyrwyddo mewn ffordd ddiogel a phriodol.
3. Darparu gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig er mwyn cynorthwyo â gweithgareddau cynllunio gofal.
4. Rhoi camau gweithredu dynodedig ar waith o asesiadau a chynlluniau gofal.
5. Ymgysylltu â theuluoedd gan ddefnyddio dulliau cyfweld ysgogiadol a dulliau sy'n canolbwyntio ar atebion.
6. Mynychu cyfarfodydd a ble'n briodol rhoi tystiolaeth yn y Llys.
7. Gweithio o fewn trefniadau ymarfer diffiniedig y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd.
8. Gweithio gydag asiantaethau eraill neu sefydliadau trydydd parti yng nghyd-destun gwaith achos.
9. Gweithio gyda theuluoedd i gyd-gynhyrchu cynlluniau a deilliannau a gytunwyd.

**Goruchwylio/Rheoli Pobl**

Dim

**Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Gwiriadau llawn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

| |
|---|
| **Amodau Gwaith Arbennig** |
| Dim |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| ***Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos ar eich ffurflen gais sut yr ydych chi'n bodloni pob un o'r gofynion hanfodol.*** | | |
| **Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Cymhwyster Ffurfiol mewn Gwaith Cymdeithasol (Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus) | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Cymhwyster mewn ymyraethau therapiwtig teuluol | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Cwbl gyfarwydd â deddfwriaeth / rheoliadau a chanllawiau Gofal Cymdeithasol perthnasol | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Cymhwyster mewn Cyfweld Ysgogiadol | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth dda o effeithiau camddefnyddio sylweddau/alcohol, trais domestig, ac iechyd meddwl / lles o fewn cyd-destun teuluol. | Dymunol | |
| **Sgiliau** | | |
| Sgiliau trafod a chyfathrebu rhagorol | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu ysgrifennu dogfennau cymhleth mewn gwahanol arddulliau | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Lefel dda o gymhwysedd wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu nodi ac ymateb i anghenion Defnyddwyr Gwasanaeth | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau datrys problemau ardderchog | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu gweithio gyda darparwyr gofal a chefnogaeth broffesiynol i nodi a manylu ar anghenion gwasanaeth. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau rheolaeth ariannol | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gweithio o fewn lleoliad contractio, cyfreithiol, iechyd neu ofal cymdeithasol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn gwerthuso a gwella gwasanaethau | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| **Y Cwsmer yn Gyntaf:** Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:** Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cydweithio / Gweithio mewn Partneriaeth:** Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:** Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Newid:** Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau, drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaeth. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:** Eich arwain a'ch cymell eich hunan ac eraill i wella perfformiad yn barhaus. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |